Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 26 Mawrth 2021**

| **Yn bresennol:** | | **Yn bresennol:** |
|---|---|---|
| Meena Upadhyaya<br>Ellen Donovan<br>Gareth Lynn<br>Jeff Farrar<br>Andrew Goodall<br>Andrew Slade<br>Tracey Burke<br>Reg Kilpatrick<br>Peter Kennedy<br>Andrew Jeffreys<br>Natalie Pearson<br>Gawain Evans<br>David Richards<br>Helen Lentle<br>Robin Bradfield<br>Fran Hill | | Glyn Jones<br>Tayyeba Roula<br>Paul Sullivan<br>Joanne Glenn<br>Claire Bennet<br>Hannah Fisher<br><br>**Ysgrifenyddiaeth:**<br>Charmain Watts |
| **Ymddiheuriadau:**<br>Shan Morgan<br>Des Clifford | | |

## 1. Croeso

1.1 Esboniodd Tracey Burke y byddai’n cadeirio Bwrdd Llywodraeth Cymru heddiw ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol. Croesawodd Tracey bawb i’r cyfarfod a rhoddodd y newyddion diweddaraf am y paratoadau ar gyfer etholiadau’r Senedd.

1.2 Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

## 2. Diweddariad Covid-19

2.1 Rhoddodd Andrew Goodall y newyddion diweddaraf i Fwrdd Llywodraeth Cymru am y datblygiadau’n ymwneud â Covid-19 ac am y sefyllfa bresennol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:

- Y cyfraddau Covid-19 yng Nghymru ar hyn o bryd
- Y niferoedd sydd wedi cael eu brechu
- Gweithgareddau gofal critigol
- Pwysau Covid ar ysbytai
- Cyfraddau Covid-19 mewn gwledydd eraill.

2.2 Esboniodd Andrew fod cynllun y gwasanaethau iechyd a gofal i adfer ar ôl y pandemig wedi'i gyhoeddi ddydd Llun. Cafodd y cynllun ei groesawu a bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu tymor hwy.

2.3 Gofynnodd Ellen Donovan a oedd yr hyn a gyflawnwyd yn nhymor diwethaf y Llywodraeth wedi'u cynnwys. Cynigiodd y Cadeirydd gynnwys eitem ar hyn mewn cyfarfod o’r Bwrdd yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU 1:** Cynnwys eitem ar agenda cyfarfod o’r Bwrdd yn y dyfodol ar yr hyn a gyflawnwyd yn nhymor diwethaf y Llywodraeth.

2.4 Gofynnodd Meena Upadhyaya sut yr oedd Llywodraeth Cymru'n annog pobl betrusgar i gael eu brechu. Esboniodd Andrew fod codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd cyhoeddus yn allweddol i helpu pobl i gael eu brechu, ynghyd â chyflwyno tystiolaeth bod y brechlyn yn affeithiol. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd gwrando ar bryderon pobl a dywedodd fod arweinwyr cymunedol yn helpu i gefnogi'r broses o gyflwyno brechiadau mewn cymunedau.

## 3. Strategaeth y Gweithlu, Strategaeth y Gweithle a’r Strategaeth Ddigidol

3.1 Cyflwynodd Natalie Pearson, Tayyeba Roula a Paul Sullivan gyfres o sleidiau a rhoi diweddariad ar bob un o’r strategaethau.

3.2 Esboniodd Natalie y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ba fath o weithlu, gweithleoedd ac offer digidol sydd eu hangen arnom i helpu i fynd â ni o’r argyfwng i'r sefydliad rydym am fod yn y dyfodol.

3.3 Canolbwyntiodd diweddariad Natalie ar Strategaeth y Gweithlu ar y canlynol:

- Ein nodau
- Ymgysylltu â staff
- Mireinio egwyddorion y Strategaeth
- Ein blaenoriaethau cyflawni
- Arweinyddiaeth, perfformiad a datblygiad
- Ffyrdd newydd o weithio

3.4 Canolbwyntiodd diweddariad Tayyeba Roula ar y Strategaeth Digidol ar y canlynol:

- Profiadau cyfredol
- Ffeithiau digidol am y dyfodol
- Gweledigaeth ac egwyddorion digidol ar gyfer y dyfodol
- Map ffordd lefel uchel digidol ar gyfer y dyfodol
- Gofynion digidol yn y dyfodol

3.5 Canolbwyntiodd diweddariad Paul ar ddatblygiad Strategaeth y Gweithle 2020-2030. Eglurodd yr angen i ail-werthuso ein model sefydliadol a'n strategaeth hirdymor ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol ac ar gyfer dyfodol ein hystâd, a thrafododd y themâu allweddol a oedd yn cynnwys:

- Gweithio cyfunol/aml-leoliad
- Effaith amgylcheddol - datgarboneiddio a bioamrywiaeth
- Presenoldeb gwasgaredig
- Adfywio economaidd/gwerth cymdeithasol
- Cydweithio a rhannu lle
- Rhoi pwrpas arall i’r gweithle
- Lles yn y gweithle
- Effeithlonrwydd, perfformiad a fforddiadwyedd

3.6 Gwnaeth Jeff Farrar sylw ar bwysigrwydd llywodraethu cryf i sicrhau bod y darn hwn o waith, a oedd yn eang iawn, yn cael ei gyflawni'n

llwyddiannus. Cytunodd y Bwrdd a chroesawi adborth ar hyn gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol.

3.7 Cytunodd Glyn Jones ac esboniodd y byddai angen i bob adran yn y sefydliad helpu i gyflawni'r darn hwn o waith. Roedd y Pwyllgor Gweithredol wedi cytuno’n ddiweddar y dylai’r Gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg gydweithio â’r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i ddatblygu rhaglen o hyfforddiant arweinyddiaeth ddigidol o fewn Llywodraeth Cymru.

3.8 Trafododd y Bwrdd y mater o adnoddau a chyllid ac eglurodd Andrew Jeffreys y byddai angen codi hyn gyda’r Gweinidog Cyllid yn y dyfodol fel rhan o drafodaethau cyllidebol ehangach. Gofynnodd y Bwrdd am yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

**CAM GWEITHREDU 2:** Darparu’r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y cyllid a’r adnoddau ar gyfer gwaith y Strategaeth Digidol.

## 4. Diweddariad am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

4.1 Eglurodd Andrew Jeffreys fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 ynghyd â Chynllun Cyflawni ar 2 Mawrth. Mae'r Strategaeth yn amlinellu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar dair thema:

- Cynyddu amrywiaeth drwy fynd i’r afael yn benodol â thangynrychiolaeth pobl anabl a phobl o gymunedau ethnig leiafrifol 0ar bob lefel o’r sefydliad a thangynrychiolaeth o blith menywod mewn rolau uwch,
- Nodi a chael gwared ar rwystrau,
- Cefnogi staff o bob cefndir i gyrraedd eu potensial, gan greu cyfle cyfartal i bawb

4.2 Esboniodd Jo Glenn fod y strategaeth yn cynnwys targedau llif newydd sy'n uchelgeisiol ac yn cyfleu neges ein bod o ddifrif am gynyddu amrywiaeth ein staff.

4.3 Trafododd y Bwrdd y targedau ymhellach a chytuno ei bod yn bwysig eu bod yn uchelgeisiol. Dywedodd Jeff Farrar y gall rheoli perfformiad heb ddefnyddio targedau fod yn llwyddiannus hefyd.

4.4 Esboniodd Jo hefyd fod rhaglen fentora o chwith newydd ar gyfer 2021 wedi'i lansio a'u bod yn awyddus i gael cynifer â phosibl o fentoriaid sy’n Uwch Weision Sifil â. Esboniodd hefyd fod gwaith i weithredu'r model

cymdeithasol o anabledd yn parhau ac y darperir diweddariad ar wahân mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

4.5 Gofynnodd Andrew a fyddai'r Bwrdd yn fodlon cynnal trafodaeth reolaidd ar gydraddoldeb hiliol sydd ar wahân i'r diweddariadau cyffredinol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Croesawodd y Bwrdd hyn.

4.6 Esboniodd Andrew fod ymrwymiad wedi'i wneud fel rhan o'r strategaeth i gyflwyno rolau anweithredol ar ein byrddau arwain a gwneud penderfyniadau a'u hagor i staff a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Caiff hyn ei dreialu drwy fwrdd cysgodol gydag aelodaeth o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda'r bwriad o ddysgu gwersi ar sut i wella amrywiaeth ein fforymau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gofynnir i'r Bwrdd roi eu barn ar sut y gallai hyn weithio. Gofynnir i'r Bwrdd hefyd ddadansoddi ei amrywiaeth ei hun a rhoi camau ar waith i wella hyn lle bo angen.

**CAM GWEITHREDU 3** – Aelodau'r Bwrdd i roi adborth ar sut y gallai Bwrdd cysgodol weithio.

**CAM GWEITHREDU 4** – Y Pwyllgor Taliadau i ystyried meincnodau amrywiaeth, dadansoddi amrywiaeth y Bwrdd a rhoi adborth ar sut i wella hyn.

## 5. Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

5.1 Rhoddodd Claire Bennet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed i greu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a gwaith y grŵp llywio.

5.2 Esboniodd Clare fod y cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi yr wythnos hon a thynnodd sylw’r Bwrdd at rai o'r heriau. Esboniodd Clare ymhellach fod y broses hon wedi arwain at set glir o egwyddorion a fydd yn sail i'r Cynllun. Dyma'r egwyddorion:

- Datblygu ar y cyd
- Gwrth-hiliaeth
- Cau’r bwlch gweithredu.

5.3 Amlinellodd Clare y cefndir ar gyfer datblygu'r cynllun ac esboniodd ei fod yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiad tystiolaeth cyflym a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) sydd wedi ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc, gan gynnwys academyddion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru a thu hwnt; ac ar ymgysylltu â'r gymuned dan arweiniad sefydliadau llawr gwlad yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u hariannu i ymgymryd â'r gwaith hwn

5.4 Esboniodd Clare y bydd yn bwysig, fel sefydliad, bod thema arweinyddiaeth a chynrychiolaeth o fewn y cynllun yn cael ei hystyried a'i gweithredu er budd yr holl staff. Dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr ag ystyriaeth o ganfyddiadau'r adroddiad mewnol "Rhedeg yn erbyn y Gwynt" a'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

5.5 Dywedodd Clare fod gan y cynllun oblygiadau sefydliadol ac allanol i Lywodraeth Cymru a bod y papur a gyflwynwyd yn dangos y ddau. O fewn y Cynllun rydym yn ymrwymo i fod yn weithle enghreifftiol sy'n adlewyrchu ein poblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a sicrhau recriwtio teg ac agored i'n cyrff gwneud penderfyniadau. Mater allweddol arall oedd sut yr ydym yn monitro cynnydd, dwyn pobl i gyfrif am gynnydd – neu ei ddiffyg – a sicrhau bod sylw'n parhau ar y materion hyn.

5.6 Tynnodd y Bwrdd sylw at ddifrifoldeb a phwysigrwydd y gwaith hwn a diolch i Clare a'i holl dîm am eu hymdrechion enfawr.

## 6. Diweddariad ar gyllid

6.1 Darparodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon a gyflwynwyd gan Benaethiaid Cyllid Llywodraeth Cymru ar 24 Mawrth. Roedd y diweddariad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Sefyllfa gyfredol y cronfeydd wrth gefn

6.2 Rhoddodd Andrew Jeffreys yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth, y diwrnod cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi ei chyllideb ar 3 Mawrth. Esboniodd Andrew fod y cyllid a ddyrannwyd i Gymru wedi cynyddu a chyflwynodd sleidiau a oedd yn canolbwyntio ar ragolygon ar gyfer arian cyhoeddus yng Nghymru.

## 7. Unrhyw fater arall

7.1 Cododd Ellen Donovan rai cwestiynau ynghylch atebolrwydd am unrhyw ddigwyddiadau seilwaith iechyd a diogelwch mawr. Cytunodd y bwrdd y dylid trafod hyn yn fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU 5:** Trafod iechyd a diogelwch a'r broses o ymdrin â digwyddiadau seilwaith mewn cyfarfod bwrdd yn y dyfodol.